

# Bondiau Premiwm

1 Ionawr 2025

## Manylion y gystadleuaeth tynnu rhifau

### Cyfradd y gronfa wobrau a'r ods ar gyfer ennill

TY gronfa wobrau ar gyfer pob cystadleuaeth tynnu rhifau yw mis o log ar gyfanswm gwerth Bondiau cymwys.

Rydym yn rhannu'r gwobrau'n dri band gwerth ac yn dyrannu cyfran o'r gronfa wobrau i bob band – gweler isod.

I gyfrifo nifer y gwobrau, rydym yn rhannu cyfanswm y rhifau Bond £1 sy'n gymwys â'r ods.

**Cyfradd flynyddol y  
gronfa wobrau:**  
4.00%

**Yr odds ennill ar  
gyfer rhif Bond £1:**  
22,000 i 1

Band gwobrau	Uwch	Canolig	Is
Gwerth y wobr	10% o'r gronfa wobrau	10% o'r gronfa wobrau	80% o'r gronfa wobrau
	£1 million	£1,000	£100
	£100,000	£500	£50
	£50,000		£25
	£25,000		
	£10,000		
	£5,000		

### Pwsig

Mae manylion y gystadleuaeth tynnu rhifau'n gywir ar yr adeg argraffu. Mae cyfradd y gronfa wobrau, gwerth gwobrau, yr ods ar gyfer ennill a'r ffordd rydym yn rhannu gwobrau i gyd yn amrywiol, a gallant newid unrhyw bryd. Er enghraifft, cyn i Fondiau newydd ddod yn gymwys ar gyfer eu cystadleuaeth tynnu rhifau gyntaf.

---

Ewch [nsandi.com/prize-draw](https://nsandi.com/prize-draw) i gael y manylion diweddaraf. Neu ffoniwch ni a gofynnwch am y copi diweddaraf o'r daflen hon.

---

## Sut rydym yn rhannu'r gwobrau

### Band gwerth uwch

Rydym yn talu dau jacpot gwerth £1 filiwn bob mis. Yna, rydym yn rhannu gweddill y rhan o'r gronfa wobrau a neilltuwyd i'r band gwerth uwch yn gyfartal ymhlith y gwerthoedd eraill.

Yn gyntaf, rydym yn cyfrifo nifer y gwobrau £100,000. Yna, rydym yn dwyn ymlaen unrhyw arian sy'n weddill ac sy'n werth llai na hanner gwerth y gwobrau hynny i'r rhan ar gyfer y gwobrau £50,000. Neu, os bydd unrhyw arian sy'n weddill yn werth o leiaf hanner gwerth y wobr, byddwn yn cyflwyno gwobr ychwanegol o £100,000, gan fynd â'r gwahaniaeth o'r rhan ar gyfer y gwobrau £50,000.

Yna, byddwn yn cyfrifo nifer y gwobrau gwerth uchel eraill yn yr un ffordd, o'r gwerth uchaf i'r gwerth isaf. Bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei ychwanegu at y band gwerth canolig, ac yn yr un modd bydd unrhyw ddiffyg yn cael ei dynnu o'r band gwerth canolig.

### Band gwerth canolig

Byddwn yn cyfrifo nifer y gwobrau fel bod un wobr £1,000 am bob tair gwobr £500. Os bydd unrhyw arian yn weddill, byddwn yn ei ychwanegu at y gyfran a neilltuwyd i'r band gwerth is.

### Band gwerth is

Mae nifer gyfartal o wobrau £100 a £50, ac mae cyfanswm nifer y gwobrau o bob gwerth (gan gynnwys y gwobrau £25) yn cyfateb i nifer y rhifau Bond £1 sy'n gymwys, wedi'i rhannu gan yr ods (gweler drosodd).

Mae'n annhebygol iawn y bydd cyfanswm nifer y gwobrau yn brin, ond os bydd hyn yn digwydd, gallem gynyddu'r gyfran sydd wedi'i neilltuo i'r band gwerth is a lleihau'r cyfrannau a neilltuwyd i'r bandiau gwerth uwch a chanolig. Os bydd arian dros ben, byddwn yn ei ddwyn ymlaen i'r gronfa wobrau ar gyfer y mis canlynol.

Mae National Savings and Investments yn Nod Masnach y Cyfarwyddwr Cynilion